



Delwedd © coculture Design of Needity - Khaled Barakeh

# Canllawiau cronfa Pont Ddiwylliannol



Delwedd © Dr Thomas Smith, Gweithdy mapio pwrpasol

# Cynnwys

Cliciwch ar y dolenni isod i fynd i'r gwahanol adrannau:


| | |
|---|---|
| 1. Help i wneud cais | Tudalen 3 |
| 2. Ynglŷn â'r gronfa | Tudalen 3 |
| 3. Amcanion y rhaglen | Tudalen 4 |
| 4. Faint sydd ar gael? | Tudalen 4 |
| 5. Pwy sy'n gallu ymgeisio? (cymhwysedd) | Tudalen 5 |
| 6. Pwy na chaiff ymgeisio? | Tudalen 6 |
| 7. Sut i wneud cais | Tudalen 6 |
| 8. Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i gael penderfyniad? | Tudalen 6 |
| 9. Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r arian | Tudalen 6-8 |
| 10. Yr hyn na allwch wneud cais amdano | Tudalen 8 |
| 11. Sut mae eich cais yn cael ei asesu (meini prawf) | Tudalen 8-10 |
| 12. Cwestiynau a manylder y cais gan gynnwys canllawiau'r gyllideb | Tudalen 10-15 |
| 13. Beth i'w wneud os oes gen i gwestiwn? | Tudalen 15 |

# 1. Help i wneud cais

Rydym yn dymuno gwneud y broses o ymgeisio ar gyfer y rhaglen Pont Ddiwylliannol yn hygyrch i bob sefydliad a hoffai ymgeisio. Os ydych chi angen cefnogaeth bersonol i gwblhau cais, mae nifer o ffyrdd y gallwn ni helpu.

Mae'r canllawiau ar gael mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys PDF wedi'i fformatio, Testun Plaen a Sain. Os oes angen fformat arall arnoch, cysylltwch â ni.

Mae arweinydd ein rhaglen wrth law i helpu ymgeiswyr i ateb cwestiynau a allai fod ganddynt am y canllawiau neu am ymgeisio - gweler adran 13 am fanylion cyswllt.

Gallwn hefyd dalu am gostau mynediad sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd yr ydych chi'n ymgeisio amdano - gweler adran 12.1 am ragor o fanylion.

# 2. Ynglŷn â'r gronfa

Rhaglen yw'r Bont Ddiwylliannol sy'n anelu at ddatblygu perthnasoedd newydd a chyfredol i gynorthwyo cyfnewid rhyngddiwylliannol a sgwrs ym maes diwylliant a'r celfyddydau cyfranogol rhwng yr Almaen a'r DU.

Mae'r rhaglen yn targedu sefydliadau sy'n esiamplau o ddemocratiaeth ddiwylliannol gan eu bod yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod cymunedau yn ganolog i'w gwaith creadigol
- chwilio am ffyrdd newydd o gysylltu'r celfyddydau a chymdeithas, yn enwedig drwy feithrin cyd-greu rhwng cymunedau, artistiaid a phartneriaid eraill
- cefnogi pobl o bob rhan o'u cymunedau i ddatblygu eu creadigrwydd a chanfod eu lleisiau unigol
- grymuso eu cymunedau i gydweithio er mwyn hybu eu llefydd lleol, eu hunaniaeth gyffredin, a'u gallu i gael effaith ar y cyd

Mae saith o bartneriaid yn buddsoddi yn rhaglen y Bont Ddiwylliannol: Fonds Soziokultur, Goethe-Institut London, Arts Council England, Arts Council Northern Ireland, British Council, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Cymru/ Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Bydd y penderfyniadau'n cael eu gwneud o dan feini prawf y gronfa a'r nod fydd bod yn gynhwysol wrth roi sylw i ddaearyddiaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol yr Almaen a'r DU.

# 3. Amcanion y rhaglen

- Cefnogi cyfleoedd cyfnewid a datblygu rhyngwladol i sefydliadau diwylliannol yn y Deyrnas Unedig a'r Almaen
- Galluogi newid cymdeithasol drwy ddatblygu dulliau cyfranogol mewn amrywiaeth o ffurfiau celfyddydol, a hynny'n ymateb i un neu ragor o themâu'r rhaglen:-
  - Adfywio llefydd/cymunedau ôl-ddiwydiannol
  - Llefydd â llai o gyfleoedd i ymwneud â'r byd celfyddydol a diwylliannol
  - Llefydd a chymunedau a gaiff eu gweddnewid gan ymgyrchu ar lawr gwlad
  - Ailddiffinio'r defnydd o ofod cyhoeddus
- Archwilio modelau newydd o ymarfer celfyddydol arloesol, yn enwedig profi ffyrdd dychmygus o weithio gyda chymunedau sy'n cynnig ymatebion newydd a chadarnhaol o ymgysylltu'n gymdeithasol drwy ymarfer creadigol

# 4. Faint sydd ar gael?

Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y rhaglen yw £310,000 (tua €360,000). Mae gan y rhaglen ddwy haen ariannu:

| **Haen 1: Partneriaethau newydd** |
|---|
| Gall ymgeiswyr ofyn am gyfanswm o **rhwng £5,000 a £10,000** ar gyfer pob partneriaeth.<br>Nid oes angen arian cyfatebol. |
| **Haen 2: Partneriaethau sydd wedi'u sefydlu'n barod** |
| Gall ymgeiswyr ofyn am gyfanswm o **hyd at £30,000** i bob partneriaeth.<br><br>Nid oes gofyniad ar gyfer canfod arian cyfatebol, ond anogir uchelgais i feithrin partneriaethau ehangach a chanfod incwm arall neu gymorth arall nad yw'n ariannol, er mwyn gyflawni amcanion y bartneriaeth. |

Gweler adran 9 'Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r arian' am ragor o fanylion am y ddwy haen gyllido.

# 5. Pwy sy'n cael ymgeisio? (cymhwysedd)

Mae'r rhaglen ar agor i bob sefydliad diwylliannol* sydd wedi profi ei allu ym maes ymarfer cyfranogol/ymarfer sy'n ymwneud â chymdeithas - gweler adran 2 'Ynglŷn â'r gronfa' ac adran 3 'Amcanion y rhaglen'.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan sefydliadau sy'n cefnogi ymarferwyr creadigol unigol fel rhan o'r weithgaredd sy'n cael ei gynnig.

Mae'r rhaglen Pont Ddiwylliannol wedi ymrwymo i hyrwyddo rhwydwaith amrywiol a chynhwysol. Dylai'r gweithgaredd rydym yn ei gefnogi, a'r gweithlu o sefydliadau celfyddydol a diwylliant a gyllidwn adlewyrchu amrywiaeth y DU a'r Almaen, ac felly rydym yn annog ceisiadau gan sefydliadau a arweinir gan amrywiaeth a chan y rhai o gefndiroedd sydd wedi eu tan-gynrychioli.

Gwahoddir ceisiadau gan bartneriaethau newydd i Haen 1, neu bartneriaethau sy'n bodoli'n barod i Haen 2 - gweler adran 9 'Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r arian'.

Cynigir cymorth, cyn y cyfnod ymgeisio, er mwyn helpu i sefydlu partneriaethau newydd rhwng sefydliadau'r DU a'r Almaen sy'n dymuno ymgeisio ar gyfer Haen 1.

Rhaid i'r partneriaethau fod yn ddwyochrog gan gynnwys o leiaf un partner o'r Almaen ac un partner o'r DU, a hynny o unrhyw un o'r pedair cenedl: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Dim ond un cais partneriaeth gall sefydliadau fod yn ran ohono. Mae'n debygol y byddai ceisiadau niferus gan sefydliad yn golygu na fyddai ceisiadau cysylltiedig yn gymwys.

Bydd gofyn i'r holl bartneriaethau enwebu arweinydd. Gall y partner sy'n arwain ddod o'r Almaen neu o un o bedair cenedl y DU, a'r partner hwn fydd y prif gyswllt ar ran y bartneriaeth. Hwn hefyd fydd yn gyfrifol am adrodd yn ôl i'r cyllidwyr.

Dylai partneriaid weithio gyda'i gilydd i gwblhau cwestiynau'r cais sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth a'r Gweithgaredd – Rheolaeth, Amserlen a Chanlyniadau. Dylid cyflwyno cyllidebau'r partneriaid ar wahân, un ai mewn GBP neu Ewro fel y bo'n briodol. Gweler adran 12 am ganllawiau pellach ar y gyllideb.

[*Wrth sôn am 'sefydliad', rydyn ni'n golygu grŵp o bobl sy'n gweithio tuag at nod cyffredin gyda dogfen lywodraethu sy'n rhoi sylw i'r math o brosiect y gwneir cais ar ei gyfer, fel elusen, cwmni cyfyngedig neu grŵp anghorfforedig.

Yn yr Almaen mae hyn yn cyfeirio at sefydliadau 'cofrestredig' yn unig.
Mae angen i bob sefydliad gael cyfrif banc yn enw'r sefydliad, gyda dau lofnodwr (y bobl sydd â hawl i lofnodi sieciau).]

# 6. Pwy sydd ddim yn gallu ymgeisio?

- Artistiaid unigol - mae'r rhaglen hon ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ddatblygu partneriaeth ddwyochrog ymhlith sefydliadau'n unig
- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli (yn byw neu wedi'u cofrestru) y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'r Almaen.
- Sefydliadau nad ydyn nhw'n gallu dangos bod ganddyn nhw record amlwg o ymarfer sy'n ymwneud â chymdeithas

# 7. Sut i wneud cais?

Bydd dolen i'r ffurflen gais yn mynd yn fyw ar wefan Pont Ddiwylliannol: cultural-bridge.info ddydd Mercher 11 Hydref 2023.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5pm (DU)/6pm (Yr Almaen) ddydd Mercher 22 Tachwedd 2023.

# 8. Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i gael penderfyniad?

Byddwch yn derbyn penderfyniad erbyn 31 Ionawr 2024.

Ni all eich gweithgaredd ddechrau cyn Ebrill 2024 a dylid ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2025, oni chytunir yn wahanol.

# 9. Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r arian

Gall ceisiadau fod ar gyfer gweithgaredd wyneb yn wyneb, digidol neu hybrid sy'n canolbwyntio ar ymarfer celfyddydol cyfranogol/sy'n cynnwys y gymdeithas ac mewn ymateb i nodau/themâu'r rhaglen – gweler adran 3.

Mae'n rhaid i'r gweithgaredd fod yn unol ag unrhyw gyfyngiadau COVID sy'n parhau gan y Llywodraeth yn unrhyw un o wledydd y DU ac yn rhanbarthau'r Almaen lle bydd y gweithgaredd yn digwydd.

Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer gweithgareddau partneriaeth sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol ac yn hyrwyddo rhai cadarnhaol.

Mae gan y rhaglen hon ddwy haen ariannu:

<table>
<tr><td colspan="2">Mae Haen 1 ar gyfer cefnogi ceisiadau i ddatblygu partneriaethau newydd rhwng sefydliadau diwylliannol yn y DU a’r Almaen, rhaid i’r ddau sefydliad allu dangos bod ganddyn nhw record amlwg o ymarfer sy’n ymwneud â chymdeithas.<br><br>Gellir defnyddio cyllid Haen 1 ar gyfer un neu’r cyfan o’r canlynol:<br>• Datblygu partneriaeth<br>• Cyfnewid<br>• Cynlluniau preswyl<br>• Cyd-greu<br>• Rhwydweithio</td></tr>
<tr><td>Er enghraifft:</td><td>• Datblygu ymarfer artistig drwy gydweithio rhyngwladol<br>• Cynllun cyfnewid pobl greadigol allweddol i ddatblygu cysyniadau neu berthnasoedd newydd sy’n archwilio ffyrdd arloesol o gysylltu’r celfyddydau a chymdeithas<br>• Arbrofi gyda dulliau a ffurfiau newydd o ymgysylltu diwylliannol mewn cyfres o weithgareddau peilot llai wedi’u cyd-greu gyda chymunedau</td></tr>
</table>

Nid ydym yn disgwyl unrhyw allbwn perfformiadol/artistig o weithgaredd yn Haen 1. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i chi rannu gwybodaeth a darganfyddiadau sy’n seiliedig ar ymarfer gyda rhwydwaith y Bont Ddiwylliannol ac yn fwy cyhoeddus trwy gyfrannu at ein rhaglenni a deunyddiau eraill.

<table>
<tr><td colspan="2">Mae Haen 2 ar gyfer cefnogi partneriaethau sydd wedi’u sefydlu yn barod rhwng sefydliadau diwylliannol yn y DU a’r Almaen, rhaid i’r ddau sefydliad allu dangos bod ganddyn nhw record amlwg o ymarfer sy’n ymwneud â chymdeithas.<br><br>Gellir defnyddio cyllid Haen 2 ar gyfer:</td></tr>
<tr><td>Er enghraifft:</td><td>• Datblygu ymarfer artistig, gan gynnwys cysyniadau/dulliau/ffurfiau newydd o ymgysylltu diwylliannol ar raddfa fwy, y tu hwnt i’r cam ymchwil cychwynnol<br>• Cyd-greu a chyflawni gwaith cyfranogol newydd ar raddfa fwy, y tu hwnt i’r cam ymchwil cychwynnol</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Er enghraifft:** | • Arian cyfatebol: pan nad yw terfyn y gronfa yn eich galluogi i gyflawni uchelgeisiau'r bartneriaeth, gellir defnyddio'r cyllid hwn fel arian cyfatebol, er mwyn helpu i gael hyd i fuddsoddiad pellach |

Dylai pob cais Haen 2 gynnwys rhywfaint o ymarfer celfyddydol cyfranogol/sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau. Rydym hefyd yn disgwyl i chi rannu gwybodaeth a darganfyddiadau sy'n seiliedig ar ymarfer gyda rhwydwaith y Bont Ddiwylliannol ac yn fwy cyhoeddus trwy gyfrannu at ein rhaglenni a deunyddiau eraill.

Bydd angen i ymgeiswyr gynnal eu hymchwil eu hunain ac ymrwymo i'r gweithgaredd arfaethedig gan unrhyw bartner(iaid) eraill a enwir.

# 10. Yr hyn na allwch wneud cais amdano

- Gweithgaredd nad yw'n gysylltiedig â'r celfyddydau nac yn canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer sy'n cynnwys y gymdeithas mewn partneriaeth.
- Gweithgareddau a gynhelir, neu'n sy'n dechrau cyn Ebrill 2024, oni chytunir fel arall
- Costau/gweithgaredd sydd eisoes yn cael eu talu gan gyllid arall
- Costau rhedeg cyffredinol a gorbenion y telir amdanynt gan incwm arall, gan gynnwys eich cronfeydd eich hun
- Gweithgareddau sy'n gwneud elw - os yw eich cyllideb yn cynnwys incwm dros ben nad yw'n cael ei wario o fewn y prosiect, yna ni fydd eich prosiect yn gymwys
- Gorbenion parhaus sy'n gysylltiedig ag offer neu adeiladau, fel costau yswiriant a chynnal a chadw
- Prynu asedau neu fuddsoddi sylweddol - gweler adran 12.1 am ganllawiau'r gyllideb

Rydym yn cadw'r hawl i roi cynnig is pan fo'r costau'n ymddangos yn anghymwys neu'n afresymol.

# 11. Sut mae eich cais yn cael ei asesu (Meini prawf)

Yn gyntaf, bydd eich cais yn cael ei wirio i weld a yw'n gymwys. Gwiriwch a ydych chi, eich gweithgareddau a'ch partneriaid yn gymwys ar gyfer y gronfa

hon – gweler adrannau 5 a 6 'Pwy sy'n gallu gwneud cais / na chaiff wneud cais?' ac adrannau 9 a 10 'Ar gyfer beth y gellir / na ellir defnyddio'r arian'.

Unwaith y bydd cymhwysedd wedi'i wirio, bydd panel o arbenigwyr annibynnol yn sgorio'r cais, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Almaen a'r DU a enwebwyd gan bob un o bartneriaid cyllid y Bont Ddiwylliannol.

Bydd y panel hwn yn asesu'r cais yn unol â'r pedwar maen prawf canlynol:

**Y bartneriaeth:**

- Haen 1 yn unig: Oes yna resymeg dros ddewis partneriaid (eu sgiliau, eu hymarfer, eu profiad) ac a fydd cyfansoddiad y bartneriaeth yn helpu i gyflawni'r hyn y mae'r gweithgaredd yn bwriadu ei wneud?
- Haen 2 yn unig: Ydi'r partneriaid yn dangos hanes blaenorol o gydweithio ac a fydd cyfansoddiad y bartneriaeth yn helpu i gyflawni'r hyn y mae'r gweithgaredd yn bwriadu ei wneud?
- Ydi'r bartneriaeth yn gydfuddiannol – a fydd pob partner yn gweld budd yn y gweithgaredd?

**Dull y gweithgaredd:**

- Haen 1 yn unig: Ydi'r cynllun wedi cael ei ystyried yn dda ac ydi'r gweithgaredd arfaethedig yn dangos potensial ar gyfer arloesedd - archwilio neu ddatblygu dull newydd neu wahanol?
- Haen 2 yn unig: Ydi'r cynnig yn dangos arloesedd ac uchelgais e.e. drwy ddatblygu cysyniadau/dulliau/ffurfiau newydd o ymgysylltu'n ddiwylliannol ar raddfa fwy, y tu hwnt i'r cam ymchwil cychwynnol, gan gynnwys ystyried partneriaethau ac incwm ehangach, nawr neu yn y dyfodol?
- Ydi'r cynnig yn ymateb i anghenion neu heriau presennol penodol y partneriaid yn unol ag un neu fwy o themâu'r Bont Ddiwylliannol?

**Yr effaith bosibl:**

- Ydi'r cynnig yn amlinellu'r buddiannau/effaith posibl y gweithgaredd i artistiaid a'r gymuned? Gall hyn gynnwys datblygu ymarfer artistig a dulliau o ymgysylltu, gwireddu dulliau creadigol arloesol i helpu i gyrraedd cymunedau newydd, cyfleoedd cydweithredol ehangach yn y dyfodol ac ati.
- Ydi'r cynlluniau i fonitro, casglu a rhannu'r dysgu'n briodol?

**Strwythur + rheolaeth y gweithgaredd:**

- Ydi'r swm y gofynnwyd amdano, a'r dadansoddiad o'r costau yn ymddangos yn rhesymol ar gyfer y gweithgaredd sy'n digwydd?
- Ydi'r amserlen yn ymddangos yn ymarferol?

- Ydi hi'n glir beth sy'n digwydd, pryd a gyda phwy?
- Ydi'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd yn ymddangos yn debygol o gael yr effaith neu'r canlyniadau a ddymunir?

Bydd ceisiadau'n cael eu sgorio yn erbyn y pedwar maen prawf. Yna bydd yr holl geisiadau a'r sgorau'n cael eu trafod yn y panel penderfynu gan y panelwyr. Wrth wneud y penderfyniadau ar gyfer y dyfarniadau terfynol, bydd panelwyr hefyd yn cydbwyso'r dyfarniadau trwy ystyried:

- Amrywiaeth ddiwylliannol
- Amrywiaeth ddaearyddol, gan gynnwys cydbwyso partneriaethau gweithgareddau ar draws yr Almaen a phob un o bedair gwlad y DU – Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban

Os byddwn yn derbyn nifer uwch o geisiadau nag a ragwelwyd, rydym yn cadw'r hawl i gyflwyno cam pellach i ddidoli'r ceisiadau, ac yn y sefyllfa hon, y ceisiadau a sgoriodd uchaf yn unig a fydd yn cael eu cynnwys yn nhrafodaethau'r panel.

Oherwydd nifer y ceisiadau rydym yn debygol o'u derbyn a chapasiti cyfyngedig ein panelwyr, ni allwn gynnig adborth wedi'i deilwra ar geisiadau aflwyddiannus i'r rhaglen hon.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod erbyn 31 Ionawr 2024, ac o'r pwynt hwnnw, cytunir ar grantiau ac amserlenni talu cyn i'r gweithgaredd ddechrau.

Bydd prosiectau llwyddiannus yn cael eu cefnogi ar hyd y flwyddyn a byddwn yn gofyn i chi rannu eich dysgu yn ystod y cyfnod y gweithgaredd a chyfrannu tuag at waith gwerthuso yn ystod ac ar ôl dyddiad gorffen y gweithgaredd a ariennir.

# 12. Cwestiynau a manylder y cais

**Eich partneriaeth**

- H1 yn unig: Pam ydych chi a'ch partner wedi penderfynu gweithio gyda'ch gilydd? (250 o eiriau)
- H2 yn unig: Pam ydych chi a'ch partner wedi penderfynu gweithio gyda'ch gilydd eto, dylech gynnwys manylion i ddangos eich profiad o weithio mewn partneriaeth? (250 o eiriau)
- Dywedwch wrthym am brofiad y ddau sefydliad o ymarfer celfyddydol cyfranogol, sy'n cynnwys y gymdeithas. (300 o eiriau)
- Dywedwch wrthym pam fod y gweithgaredd hwn yn bwysig i bob un o'r partneriaid dan sylw a sut y gallech weld y berthynas yn datblygu yn y dyfodol? (300 o eiriau)

**Eich gweithgaredd**

- Dywedwch wrthym beth rydych chi'n bwriadu ei wneud, gan gynnwys gyda phwy, ble a phryd. Ydi'r gweithgaredd yn debygol o fod wyneb yn wyneb, yn ddigidol neu'n hybrid? (300 o eiriau)
- Ym mha ffordd y mae'r gweithgaredd hwn yn ceisio gwneud rhywbeth newydd ac yn ymateb i anghenion neu heriau presennol yn unol ag un neu fwy o themâu'r Bont Ddiwylliannol? (300 o eiriau)

**Canlyniadau'r gweithgaredd**

- H1 yn unig: Pa fuddion neu effaith arbennig ydych chi'n eu rhagweld o ganlyniad i'r cyfnod ymchwil/cyfnewid, mewn perthynas â'r bartneriaeth artistig a chyfranogiad y gymuned, naill ai nawr neu yn y dyfodol? (300 o eiriau)
- H2 yn unig: Pa fuddion neu effaith arbennig ydych chi'n eu rhagweld o ganlyniad i'r gweithgaredd, mewn perthynas â'r bartneriaeth artistig a'r cymunedau dan sylw? (300 o eiriau)
- Dywedwch wrthym sut rydych chi'n bwriadu monitro a gwerthuso cynnydd eich gweithgaredd, gan gynnwys casglu a rhannu'r canlyniadau dysgu? (250 o eiriau)

**Rheoli eich gweithgaredd**

- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli eich gweithgarwch o fewn y bartneriaeth, er enghraifft sut mae gwaith yn debygol o gael ei ddosbarthu rhwng partneriaid yn y DU a'r Almaen? (200 o eiriau)

**Amserlen y gweithgaredd**

- Amlinellwch brif gamau'r gweithgaredd o'r dyddiad cychwyn ymlaen, gan gynnwys lle y bydd yn digwydd a phwy fydd yn arwain pob gweithgaredd neu dasg.

Byddwn yn gofyn i chi lenwi tabl i restru prif gamau a thasgau cyfnod y gweithgaredd yr ydych yn ymgeisio amdano, o'ch dyddiad cychwyn ymlaen.

Gallai prif gamau a thasgau gynnwys cynllunio, datblygu a chyfarfodydd ymchwil, teithio, mynychu neu gyflwyno digwyddiadau/gweithdai, grwpiau ffocws, cyfarfodydd gwerthuso ac yn y blaen.

Rydym eisiau gweld eich bod wedi meddwl sut y byddwch yn cynllunio'ch amser, a'ch bod yn gallu rheoli eich gweithgaredd yn yr amser yr ydych wedi'i neilltuo ar ei gyfer.

Rydym yn deall efallai na fyddwch yn gwybod yr union ddyddiadau ar yr adeg y byddwch yn ymgeisio ac y gall dyddiadau newid o ganlyniad i hynny.

**Cyllideb y gweithgaredd**

- Dywedwch wrthym y cyfanswm yr ydych yn gofyn amdano gennym ni mewn £, gan gynnwys unrhyw gostau mynediad personol a all fod yn ychwanegol at gyllideb eich gweithgaredd. (ac yn uwch na therfyn uchaf y cais am yr Haen)
- Faint o'r cais hwn sydd ar gyfer costau mynediad personol? Dywedwch wrthym ar gyfer beth y bydd y rhain yn cael eu defnyddio? (150 gair)
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli'r arian yr ydych yn ymgeisio amdano, gan gynnwys manylion am y sawl fydd yn rheoli'ch cyllideb? (150 gair)
- T2 yn unig: Os ydych chi'n chwilio am arian cyfatebol, manylwch am eich cynlluniau i gael hyd i ffynhonnell arall o incwm a nodwch ble rydych chi arni yn y broses hon? (200 o eiriau)

**Cyflwyno eich cyllideb:**

**Haen 1:**

Byddwn yn gofyn i chi lenwi tabl ar gyfer pob partner* gan restru'r holl wariant ar gyfer y gweithgaredd, gan nodi'r math, y disgrifiad a'r swm.

Cyfeiriwch at adran 10 - 'Yr hyn na allwch wneud cais amdano' a 12.1 ar gyfer 'Canllawiau'r gyllideb'.

**Haen 2:**

Byddwn yn gofyn i chi lunio eich cyllideb mewn taenlen excel ar wahân gyda dadansoddiad cyflawn o incwm y gweithgaredd (lle bo hynny'n berthnasol) a gwariant ar gyfer partner yr Almaen a'r DU ar y prosiect.

Byddwn yn gofyn i chi ddefnyddio tabiau ar wahân o fewn y daenlen i gyflwyno cyllidebau partner(iaid) yr Almaen a'r DU ar wahân, mewn £ neu € fel y bo'n briodol.

Cyfeiriwch at adran 10 - 'Yr hyn na allwch wneud cais amdano' a 12.1 ar gyfer 'Canllawiau'r Gyllideb'. Hefyd nodwch ganllawiau ychwanegol Haen 2 o dan adran 12.2, sy'n berthnasol yn unig pan ofynnir lle ceisir cael arian cyfatebol.

# 12.1 Canllawiau'r gyllideb

Lluniwch eich cyllideb gan restru'r holl wariant ar gyfer y gweithgaredd. Bydd angen i ni allu gweld sut rydych wedi gweithio eich ffigurau allan, felly dylech gynnwys dadansoddiad clir o dan bob pennawd cost, gan nodi'r math, y disgrifiad a'r swm:

- Cyflogau neu ffioedd ar gyfer artistiaid neu bobl greadigol
- Costau artistig neu greadigol eraill e.e. ymchwil, gwybodaeth ddigidol
- Llogi neu brynu e.e. lleoliad, deunyddiau, neu offer
- Marchnata a datblygu cynulleidfaoedd
- Costau mynediad e.e. personol a/neu wneud eich gwaith yn hygyrch i eraill
- Teithio a llety
- Gorbenion e.e., yswiriant, dogfennau teithio ac ati.
- Arall e.e., treuliau annisgwyl

Nodwch 'Yr hyn na allwch wneud cais amdano' yn adran 10.

Gall costau mynediad personol fod yn ychwanegol at gyllideb eich gweithgaredd ac yn uwch na therfyn uchaf eich cais ar gyfer yr Haen. Costau mynediad personol yw costau sy'n ymwneud â'ch anghenion mynediad eich hun, a/neu unrhyw anghenion mynediad yr ymarferwyr creadigol yr ydych yn gweithio'n uniongyrchol â nhw er mwyn cyflawni eich gweithgaredd, a/neu reoli eich grant. Dylid cynnwys costau mynediad sy'n ymwneud â galluogi cyfranogwyr i ymgysylltu â'ch gweithgaredd (e.e. cyfieithydd ar gyfer gweithdy) yng nghyllideb eich gweithgaredd.

Dylai eich cyllideb gynnwys ffioedd ar gyfer artistiaid a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r gweithgaredd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn y byd creadigol a'r maes diwylliannol yn cael eu talu'n briodol ac yn deg. Gofynnwn i chi sicrhau bod cyfraddau tâl i artistiaid a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'ch gweithgaredd (gan gynnwys chi eich hun) yn unol â safonau perthnasol y diwydiant, neu'n well na'r safonau. Hefyd, mae angen ystyried profiad a sgiliau, y math o waith a hyd y gweithgaredd.

Gall ymgeiswyr y DU wneud cais am gostau gorbenion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithgaredd rydych yn gofyn i ni ei gefnogi - er enghraifft, taliadau i staff, biliau ffôn, costau postio ac yswiriant. Gallwch chi ymgeisio am gyfraniad at eich gorbenion parhaus os nad yw'r rhain yn cael eu talu gan ffynonellau eraill o gyllid.

Ar gyfer ymgeiswyr o'r Almaen dim ond costau gweithgaredd uniongyrchol y gellir eu cefnogi a rhaid darparu tystiolaeth ohonynt yn yr adroddiad terfynol. Rhaid i'r costau i gyd gael eu cadarnhau gyda derbynebau.

Gall eich cyllideb gynnwys costau o dan y pennawd gwariant arall ar gyfer eich gweithgaredd nad yw wedi'i gynnwys yn rhywle arall, ond mae'n dal angen dangos dadansoddiad clir o'r hyn y mae'r gwariant hwn yn ei gynnwys. Gall hyn gynnwys swm ar gyfer costau annisgwyl (cyllid wrth gefn).

Os oes angen i chi brynu unrhyw ddeunyddiau neu offer (asedau) dylech gynnwys y costau hyn yn y gyllideb a dweud wrthym amdanynt yn y maes disgrifiad. Dylech gael dyfynbrisiau cystadleuol gan fwy nag un busnes neu gyflenwr. Nid prif bwrpas y rhaglen yw prynu asedau, ond rydym yn deall y gallai fod angen i chi brynu rhywfaint er mwyn gallu cynnal y gweithgaredd. Fel rhan

o’n gwiriadau cymhwysedd, byddwn yn penderfynu a yw prynu unrhyw asedau arfaethedig yn briodol. Ar gyfer sefydliadau o’r Almaen ni ddylai buddsoddiad/asedau a brynir fod yn fwy na 800 Ewro (net).

Wrth ystyried costau teithio, deunydd a phrynu offer, rydym yn annog ceisiadau sy’n lleihau’r effaith ar yr amgylchedd.

Gellir cyfrifo costau teithio ar gyfer ymgeiswyr o’r Almaen gan ystyried y rheoliadau mewn cyfraith Ffederal ynglŷn â chostau teithio ‘Bundesreisekostengesetz’.

Nodwch y bydd dyfarniadau’n cael eu talu ar wahân i sefydliadau’r DU a’r Almaen ym mhob partneriaeth. Bydd sefydliadau yn y DU yn cael eu talu’n uniongyrchol gan Goethe Institut-London a bydd sefydliadau o’r Almaen yn cael eu talu’n uniongyrchol gan Fonds Soziokultur. Dylid dosbarthu cyfanswm y dyfarniad mor gyfartal â phosibl, ni all un partner dderbyn y swm llawn.

Rydym yn deall y gallai fod angen gwneud newidiadau i gyllidebau eich gweithgareddau yn ystod y cyfnod y cwblheir y gwaith, ond bydd angen cytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol gydag arweinydd cyllid y DU neu’r Almaen.

# 12.2 Canllawiau Ychwanegol y Gyllideb ar gyfer Haen 2:

Nid oes gofyniad ffurfiol am arian cyfatebol, fodd bynnag, rydym yn annog uchelgais i adeiladu partneriaethau ehangach a chael hyd i incwm arall, arian parod neu gymorth arall nad yw’n ariannol, i gyflawni nodau’r bartneriaeth.

Os nad ydych yn bwriadu dod o hyd i arian cyfatebol, cymorth arall nad yw’n ariannol neu arian parod, dylai eich cyllideb fod ar gyfer cyfanswm cost y gweithgaredd yr ydych yn ymgeisio amdano, hyd at derfyn yr haen (£30,000), yn ogystal ag unrhyw gostau mynediad personol. Yn yr achos hwn, cyfeiriwch at ganllawiau gwreiddiol y gyllideb uchod.

Os dywedwch wrthym eich bod yn ceisio cyllid cyfatebol, byddwn yn ystyried eich cais fel cyfraniad tuag at gost gyffredinol gweithgaredd eich partneriaeth a dylai eich cais a’ch cyllideb adlewyrchu’r uchelgais hon, gyda chyllid Pont Ddiwylliannol yn cael ei gyflwyno fel cyfran o incwm cyffredinol y prosiect.

Dylid manylu ynglŷn ag unrhyw arian cyfatebol ychwanegol, arian parod neu nwyddau, yn eich cyllideb incwm gyda nodyn yn dweud lle’r ydych chi arni o ran cael hyd i’r cyllid ychwanegol e.e. wrthi’n trafod, yn disgwyl cyllid, y cyllid wedi’i gadarnhau.

Dywedwch wrthym am incwm eich prosiect drwy ddefnyddio'r penawdau incwm, e.e.:

- Incwm a enillir - unrhyw incwm y byddwch yn ei ennill o'r gweithgaredd hwn (er enghraifft, drwy werthu tocynnau, ffioedd gweithdai neu werthu gwaith neu gyhoeddiadau).
- Cyllid cyhoeddus arall - unrhyw gyllid yr ydych wedi'i dderbyn neu wedi gwneud cais amdano gan unrhyw sefydliad cyhoeddus arall. Nodwch enw pob sefydliad a'r swm.
- Incwm preifat - unrhyw incwm o ffynonellau preifat, er enghraifft gennych chi neu'ch sefydliad, rhoddion neu grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, neu gan gyllido torfol.
- Cymorth arall nad yw'n ariannol. – sy'n golygu unrhyw ddeunyddiau neu wasanaethau y byddai'n rhaid i chi dalu amdanynt fel arall ond sy'n cael eu darparu am ddim neu'n rhatach.
- Dylai'r gyllideb, incwm a gwariant, fantoli. Byddwn yn ystyried cryfder eich cyllideb drwy ddefnyddio eich cyfrifiadau a'ch esboniadau.

# 13. Beth os oes gen i gwestiwn?

| Cyswllt sefydliadau yn y DU: | Cyswllt sefydliadau yn yr Almaen: |
|---|---|
| Lorna Palmer | Tabea Deckers |
| Rheolwr Rhaglen, Pont Ddiwylliannol | Fonds Soziokultur e.V. |
| contact@cultural-bridge.info | deckers@fonds-soziokultur.de |
| 07515 191979 | 02 28 - 97 144 7923 |

FONDS SOZIOKULTUR
BRITISH COUNCIL
Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND
GOETHE INSTITUT
LOTTERY FUNDED
arts council of Northern Ireland
wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government